Gweithgaredd Cynilo

Darllenwch trwy'r wybodaeth ar gyllidebau ar Daflen Ffeithiau FB11 - Gair o Gyngor ynghylch Cynilo Arian FB9, yna ewch ati gyda'r gweithgareddau canlynol:

Gweithgaredd 1

Meddyliwch am yr hyn ydych chi a'r teulu wedi'i wneud dros y misoedd diwethaf. Defnyddiwch bob un o'r teitlau yn y daflen am wariant (Taflen Ffeithiau FB9 - Gair o Gyngor am Gynilo) a disgrifiwch yr hyn fuoch chi'n ei wneud a sut y gwnaethoch chi wario'ch arian. Rhestrwch y pethau y gallech fod wedi'u gwneud yn wahanol i arbed arian.

Gweithgaredd 2

Dychmygwch eich bod wedi cael eich gwneud yn gyfrifol am drefnu digwyddiad yn yr ysgol i godi arian. Cawsoch gyllideb o £150.

Meddyliwch am yr holl bethau ydych eu hangen ar gyfer y digwyddiad (e.e. bwyd/diod ysgafn, adloniant, hysbysebu) ac ymchwiliwch i'r costau. Meddyliwch am y pethau ydych eu gwirioneddol angen, a beth allech chi wneud hebddynt. A oes ffyrdd o dorri ar y costau - byddwch yn greadigol!

Lluniwch daflen gyllideb ar gyfer y digwyddiad. Os yw'n bosib, ceisiwch ragfynegi beth allech chi ei dderbyn o bosib mewn cyfraniadau a gweld faint o arian gwirioneddol wnaethoch chi ei godi ar ôl tynnu'r gost wreiddiol o £150 allan.

Gweithgaredd 3

Lluniwch gynllun cynilo personol ar gyfer y mis nesaf. Ysgrifennwch yr holl ffyrdd ydych yn mynd i geisio ennill ac arbed arian, neu dorri lawr ar y gwario. Defnyddiwch y wybodaeth i greu cyllideb.

Cadwch gofnodion gofalus o'r hyn ydych wedi'i wario a'i ennill trwy gydol y mis. Cadwch filiau siopa a dogfennau ariannol eraill a fydd yn help i chi gofio faint ydych wedi'i wario.

Ar ddiwedd y mis, cymharwch yr hyn ydych wedi'i wir ennill, ei gynilo a'i wario. Sut allech chi addasu eich cyllideb ar gyfer y mis canlynol er mwyn arbed mwy o arian?

Gallwch ddefnyddio Taflen Waith WB3 - Manylion y Gyllideb.

Darparwyd gan Nationwide – ar gael ar www.NationwideEducation.co.uk